

Comisiynydd Safonau

12 Mehefin 2017

Cais am wybodaeth

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 2 Mehefin, pan wnaethoch ofyn:

A allwch ddarparu copi o'r holl gwynion ysgrifenedig y derbyniodd y Comisiynydd Safonau rhwng 2011–12 a 2016–17.

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad") yn cadw gwybodaeth sy'n ymwneud â chwynion a dderbyniwyd gan y Comisiynydd Safonau ar ei ran. Mae hyn oherwydd bod yr ysgrifenyddiaeth i'r Comisiynydd Safonau yn cynnwys staff a gyflogir gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

O dan adran 3(2)(a) o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ("y Ddeddf"), "information is held by a public authority if... it is held by the authority, otherwise than on behalf of another person". Felly, ni ellir ystyried bod gwybodaeth y mae'r Cynulliad yn ei chadw ar ran person arall (ar ran y Comisiynydd Safonau yn yr achos hwn) wedi'i chadw gan y Cynulliad at ddibenion y Ddeddf. Yn yr amgylchiadau hyn, ni all y Cynulliad ddatgelu'r wybodaeth.

Er bod y Cynulliad yn awdurdod cyhoeddus o dan y Ddeddf, nid yw'r Comisiynydd Safonau. Fel y cyfryw, nid oes unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol arno i ddarparu'r wybodaeth. Fodd bynnag, efallai y bydd gennych ddi-ddordeb yn yr [Adroddiadau Blynnyddol](#) sydd ar gael ar wefan y Comisiynydd Safonau.

Ystyriwyd eich cais yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru
National
Assembly for
Wales



Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 0300 200 6544

E-bost/Email: MynediadAtWybodaeth@Cynulliad.cymru
Assembly-AccessToInformation@assembly.wales

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh

gwefan yn www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/Pages/abt-foi-cop-pub.aspx

Rhowch wybod imi os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch yr ymateb hwn. Os credwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth
Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch cais am wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn briodol yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Mae egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion ar gael ar ein gwefan yn <http://www.assembly.wales/cy/help/contact-the-assembly/con-complaint/Pages/con-complaint-procedure.aspx>. Rhowch wybod imi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF